# 2022-23

2022-23

# *Adroddiad Blynyddol*




Cyngor Tref Bae Colwyn

Neuadd y Dref,

Ffordd Rhiw,

Bae Colwyn

*Cynnwys*


| | |
|---|---|
| Rhagair gan Faer y Dref | 2 |
| Cyflwyniad | 4 |
| Trosolwg o’r Cyngor Tref | 4 |
| Y Weledigaeth Gorfforaethol, Cennad a Gwerthoedd | 6 |
| Datganiad Llesiant | 7 |
| Amcanion Allweddol | 7 |
| Trosolwg o’r Gyllideb | 8 |
| Y Drefn o Lywodraethu ag Atebolrwydd | 10 |
| Crynodeb o Weithgareddau yr Ymgymerwyd â Hwy | 10 |
| Monitro ac Adolygu | 14 |
| Dyheadau am y Flwyddyn sy’n dod | 15 |
| Cysylltwch â Ni | 16 |
| Eich Cynghorwyr Lleol | 17 |
| ATODIADAU | 18 |



## *Rhagair gan Faer y Dref, y Cynghorydd Colin Matthews 2022/23*

Wrth edrych yn ôl ar y 12 mis diwethaf, mae'n achos o falchder mawr i mi, ond hefyd ychydig o dristwch. Rwy'n falch iawn o fod wedi gwasanaethu fel Maer Tref Bae Colwyn am Flwyddyn y Cyngor 2022/23. Dechreuodd y flwyddyn gydag etholiadau llywodraeth leol a chroesawyd 13 aelod newydd i'r Cyngor (allan o 24). Rwy'n falch o ddweud bod gennym grŵp ymroddedig o gynghorwyr lleol, pob un ohonynt yn rhoi o'u hamser yn hael i wasanaethu eu cymuned leol.

Yn ystod y flwyddyn, mae'r Cyngor Tref wedi cefnogi Grŵp Llywio'r Cynllun Cymunedol / Lle, trwy gychwyn ar gyfres o weithgareddau i ymgysylltu â'r gymuned (o fis Mai i fis Tachwedd 2022), efo'r nod o gynhyrchu Cynllun Lle gyda, ac ar gyfer cymuned Bae Colwyn. Mae'r gwaith wedi mynd rhagddo'n gyflym ac mae'r cynllun drafft yn cael ei gwblhau ar hyn o bryd, cyn ei ddosbarthu. Bydd y cynllun hwn yn ganllaw i'r Cyngor wrth iddo gytuno ar ei weledigaeth, amcanion a chamau gweithredu ar gyfer gweddill y tymor presennol yn y swydd (2022-2027).

Gwn fod eleni wedi bod yn anodd iawn i lawer o'n trigolion lleol, oherwydd yr argyfwng costau byw a achoswyd gan gyfraddau chwyddiant uchel a chostau ynni cynyddol. Rwy'n gobeithio y bydd ein Cynllun Lle Cymunedol o help i ni weithio'n agosach gyda'n gilydd i helpu'n cymuned leol i wella ein gwytnwch i wynebu heriau'r dyfodol fel y rhai hyn,. Ceir gwybodaeth am weithgareddau eraill y Cyngor yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ar dudalen 10 o'r adroddiad hwn.

Rhan bwysig o rôl Maer y Dref yw bod yn Bennaeth Dinesig, sy'n golygu bod y Maer yn ymweld â llawer o ddigwyddiadau a sefydliadau lleol a hefyd i godi arian ar gyfer elusennau dewisol y Maer. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rwyf wedi mynychu 57 o ddigwyddiadau fel Maer y Dref a hoffwn gymryd y cyfle hwn i dynnu sylw at rai o'r rhai mwyaf cofiadwy.

• Y llynedd trefnodd y Cyngor Tref gyllid i gefnogi'r gymuned leol i gynnal digwyddiadau i ddathlu Jiwbilî'r Frenhines. Cefais y pleser o gael mynychu un o'r rhain, y parti a gynhaliwyd yn St Joseph's. Pwy fyddai'n meddwl blwyddyn yn ddiweddarach, byddwn yn cael fy ngwahodd i ddathlu Coroni'r Brenin Siarl 3ydd yn Eglwys Gadeiriol Llanelwy ac y byddem

yn darparu cyllid i'n cymuned leol ddod ynghyd i nodi'r achlysur hanesyddol hwn.

• Mae'r Cyngor Tref wedi cymryd rhan yng nghystadleuaeth 'Cymru yn ei Blodau' ân lawer o flynyddoedd ac mae Pwyllgor Colwyn yn ei Blodau yn weithgar iawn, gyda chynrychiolwyr o'n cymuned leol, yn ein helpu i wneud ein gerddi a'n mannau agored yn ddeniadol ac yn ddiogel i bawb. Mwynheais gwrdd â beirniad Cymru yn ei Blodau pan ymwelodd â Bae Colwyn fis Gorffennaf diwethaf ac roeddwn yn falch iawn pan glywsom ein bod wedi dod yn gyntaf, gyda gwobr aur, yn y categori trefi mawr yng nghystadleuaeth Cymru yn ei Blodau,. Yn dilyn hyn, cynhaliwyd ein noson wobrwyo ym mis Hydref ac roeddwn yn falch o gael helpu i gyflwyno'r tlysau a'r tystysgrifau i rai o'r unigolion, busnesau a grwpiau gwirfoddol niferus sy'n helpu i wneud ein tref yn lle hyfryd i fyw ynddi neu i ymweld â hi.

• Er mwyn helpu i wneud ein tref yn lle mwy bywiog, mae'r cyngor tref hefyd yn darparu cyllid bob blwyddyn ar gyfer digwyddiadau. Mae rhain yn cynnwys digwyddiadau mawr fel y cyngherddau haf ym Mharc Eirias a digwyddiad blynyddol Prom Xtra. Rydym hefyd yn rhoi grantiau ar gyfer digwyddiadau a drefnir gan ein cymuned leol. Un o'r uchafbwyntiau i mi oedd gŵyl boblogaidd Uke-a-Bay a ddychwelodd i Fae Colwyn fis Awst diwethaf. Mae'n braf cael annog calendr amrywiol o ddigwyddiadau yn ystod y flwyddyn ac rydym bob amser yn croesawu awgrymiadau ar gyfer rhai newydd. Enghraifft dda o hyn oedd y Digwyddiad Balchder Bae Colwyn cyntaf, a gynhaliwyd y mis hwn.

• Rydym hefyd yn trefnu rhai o'n digwyddiadau ein hunain a chefais y pleser o gymryd rhan yng ngorymdaith Dydd Gŵyl Dewi gyda'n plant ysgol lleol, yn ogystal â'r Gwasanaeth Dinesig mwy ffurfiol ac, wrth gwrs, roedd gennyf rôl ddefodol wrth osod y dorch gyntaf ar Sul y Cofio, wrth i ni ymuno â'n milwyr, cyn-filwyr a phobl y dref i gofio'r rhai a roddodd eu bywydau mewn gwrthdaro yn y gorffennol.

• Mae rhai o'r digwyddiadau eraill cefais y pleser o'u mynychu eleni yn cynnwys Sioe Wanwyn Cymdeithas Arddwriaethol Bae Colwyn a Digwyddiad Diwylliannol Wcráin yn Eglwys St Paul ym mis Ebrill, lle cafwyd cyfansoddiadau cerddorol a cherddorion rhagorol.

• Rydym hefyd yn hoffi cefnogi ein cymuned fusnes leol a chymerais ran yn beirniadu'r cystadlaethau ffenestr Nadolig a Dydd Gŵyl Dewi.

• Rhaid i mi gofio sôn am y noson Gwobrwyo Gwirfoddolwyr blynyddol, a drefnwyd gan ein Pwyllgor Gwobrwyo Gwirfoddolwyr, a gynhaliwyd ym mis Ebrill. Mae'n wych clywed am y gwaith da sy'n cael ei wneud gan gynifer yn ein cymuned leol a chefais y pleser mwyaf i allu diolch i'r rhai a enwebwyd ar gyfer y gwobrau. Cefais gyfle i ddewis derbynnydd Gwobr Goffa John Davies am Wirfoddoli a ddyfarnwyd i Rotari Rhos am y gwaith o drefnu'r Goeden Oleuadau flynyddol a chodi arian y mae mawr ei angen ar gyfer Hosbis Dewi Sant.

• Yn olaf, rwyf wedi cynnal nifer o ddigwyddiadau yn ystod y flwyddyn i godi arian i'r Elusennau a ddewisais, sef elusen plant Happy Faces a Sied Dynion Bae Colwyn (yn cynnwys She Shed).

## *Cynghorydd Colin Matthews, Mai 2023*

## *Cyflwyniad*

Nod yr Adroddiad Blynyddol hwn yw egluro i'n trigolion lleol beth yw swyddogaeth a blaenoriaethau'r Cyngor Tref ac i adael i chi wybod am yr hyn a ganolbwyntiwyd arno gennym yn y flwyddyn a aeth heibio. Mae gwaith y Cyngor yn cael ei arwain gan ein hamcanion allweddol, a gymeradwywyd fel rhan o Gynllun Corfforaethol pum mlynedd a'r cynllun gwaith blynyddol sy'n cael ei adolygu a'i ddiweddaru'n rheolaidd yn ystod y flwyddyn.

Cyhoeddwyd ein Cynllun Corfforaethol ym Mai 2018, ac mae hwn wedi gosod fframwaith i'r Cyngor weithio oddi mewn iddo, gan roi arweiniad a'i galluogi i weithio mewn dull sy'n canolbwyntio mwy, sy'n gyson ac sy'n cydlynu. Mae'n gosod meincnodau ar gyfer monitro ac adolygu perfformiad ac yn dangos bod y penderfyniadau a wneir yn gyson, yn dryloyw ac yn atebol.

Mae'r Cynllun Corfforaethol yn rhoi cyfle hefyd i'r gymuned leol cael gwell dealltwriaeth o'r hyn a wneir gan y Cyngor Tref a beth yw cyfrifoldebau mudiadau allanol eraill, megis Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy. Mae hwn ar gael i'w weld ar ein gwefan ac fel copi caled yn Neuadd y Dref ac yn Llyfrgell Bae Colwyn.

**Ein Cynllun Corfforaethol a'n Hadroddiadau Blynyddol yw'r prif ddull o adael i chi wybod am yr hyn a wneir gennym i gyfarfod ag anghenion ein cymuned leol. Beth yw eich barn? Rydym yn croesawu eich sylwadau ac yn falch i ateb unrhyw gwestiynau sydd gennych.**

**Gweler Tudalen 16 am ein Manylion Cyswllt, neu, fel arall, os oes gennych unrhyw gwestiynau neu sylwadau, cysylltwch â: Mrs Tina Earley, Clerc y Dref: clerk@colwyn-tc.gov.uk Tel: 01492 532248**

## *Trosolwg o'r Cyngor Tref*

Mae Cyngor Tref Bae Colwyn yn gorff corfforaethol, a grëwyd o dan ddarpariaethau Deddf Llywodraeth Leol 1972. Daeth i fodolaeth ym mis Mai 1995, fel rhan o'r ad-drefnu llywodraeth leol ddiwethaf, a welodd hefyd greu Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy. Mae'n awdurdod lleol yn ei rinwedd ei hun ac mae'n rhan o haen gyntaf llywodraeth leol, gyda rôl bwysig o ran llunio a chefnogi'r cymunedau lleol y mae'n eu cynrychioli.

Mae gan y Cyngor Tref 24 o aelodau etholedig ac maent yn cynrychioli poblogaeth o oddeutu 25,000 mewn chwe Ward: Rhos, Dinarth, Rhiw, Glyn, Eirias a Cholwyn. Maent yn rhannau o gymunedau Llandrillo yn Rhos, Bae Colwyn (yn cynnwys Bae Colwyn Uchaf) a Hen Golwyn. Gweler tudalen 17 am restr o'n haelodau presennol

Fe arddangosir agenda pob cyfarfod o'r Cyngor neu'r Pwyllgorau ar yr hysbysfwrdd y tu allan i Neuadd y Dref ac ar wefan y Cyngor. Fe all y cyhoedd ddod i'n cyfarfodydd i weld sut bydd y Cyngor yn gwneud ei phenderfyniadau. Yn ystod y flwyddyn diwethaf, cynhaliwyd nifer o'n cyfarfodydd o bell (ar-lein) ac mae'r ddolen i ymuno â chyfarfodydd fel sylwedydd ar gael trwy gysylltu â Neuadd y Dref. Fe welir rhestr o ddyddiadau ein cyfarfodydd yn ATODIAD A, ac fe gyhoeddir cofnodion cyfarfodydd y Cyngor a'i phrif Bwyllgorau ar y wefan www.colwyn-tc.gov.uk

Rhai o'r materion mwyaf cyffredinol a drafodir gan y Cyngor Tref yw: ceisiadau cynllunio (fe ymgynghorir â ni ar bob cais cynllunio sy'n effeithio ar ein hardal); dodrefn stryd (arwyddion, hysbysfyrddau, meinciau, standiau beics, biniau sbwriel, llochesi fysus, goleuadau stryd ayb); parciau a mannau agored a digwyddiadau. Rhoddir cymorth ariannol yn rheolaidd gan y Cyngor Tref i ddigwyddiadau lleol (a drefnir gennym ni neu gan eraill) ac i grwpiau a chlybiau gwirfoddol sy'n gweithredu yn yr ardal - gweler yr adran ar grantiau ar ein gwefan i weld sut i wneud cais.

Gofynnir yn aml i'r Cyngor fod yn llais i lobio dros y gymuned leol pan fo pryderon am, neu fod angen gwella'r gwasanaethau a gyflwynir gan fudiadau cyhoeddus eraill. Gall hyn cynnwys gwasanaethau gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy megis priffyrdd, addysg neu wasanaethau cymdeithasol neu wasanaethau cyhoeddus pwysig eraill megis plismona lleol neu faterion yn ymwneud ac iechyd. Fe ymgynghorir â ni hefyd, neu rydym yn rhan o bartneriaeth uniongyrchol sy'n gweithio gyda'r Cyngor Sir ac eraill, ar rai o brosiectau mawr lleol, megis y rhaglen adfywio gyfredol ym Mae Colwyn.

Mae gan lawer o aelodau'r Cyngor ran i chwarae trwy gynrychioli'r Cyngor ar fudiadau lleol eraill, megis grwpiau amgylcheddol, grwpiau busnes, canolfannau cymunedol, cyrff llywodraethol ysgolion a grwpiau eraill o ddiddordeb lleol. Mae hyn yn helpu'r Cyngor i gadw mewn cysylltiad â phethau sy'n digwydd yn yr ardal leol.

Wrth gydnabod bod gan y Cyngor Tref swyddogaeth eang ag amrywiol, ni ellir ond cyflawni'r pethau hynny y caniateir ei wneud o dan y gyfraith - sef yr hyn a elwir **grymoedd** y Cyngor. Mae gan y Cyngor hefyd, nifer o **ddyletswyddau** rhaid eu cyflawni, er mai ychydig yw'r rhain o ran nifer. Gellir cael mwy o wybodaeth am swyddogaeth a gweithgareddau'r Cyngor Tref yn ein Cynllun Corfforaethol.

## *Gweledigaeth, Cenhadaeth a Gwerthoedd Corfforaethol*

Bydd y Cyngor Tref, a etholwyd i wasanaethu am dymor o bum mlynedd tan fis Mai 2027, yn ystyried ac yn diweddaru ei weledigaeth, ei genhadaeth a'i werthoedd craidd, unwaith y bydd wedi mabwysiadu'r Cynllun Lle newydd. Bydd y rhai presennol yn parhau i fod yn berthnasol tan hynny:

| |
|---|
| Ein gweledigaeth yw bod yn gymuned arfordirol fywiog, cynhwysol a gofalgar |

I gyflawni'r weledigaeth hwn at y dyfodol, cymeradwywyd ein datganiad o Fwriad gan y Cyngor Tref ar 14eg Mai 2018:

| |
|---|
| Rydym wedi ymrwymo i gynrychioli, i wrando ac i fod yn atebol i'r holl gymuned, i werthfawrogi ein treftadaeth, meithrin llesiant pawb ac i hybu amgylchedd ffyniannus a bywiog i'r genhedlaeth bresennol ac at y dyfodol. |

I wneud hyn, byddwn yn gweithio'n agos gyda'n cymuned ac yn annog cydweithrediad, trafod syniadau hirdymor a bod yn arloesol i greu effaith cadarnhaol ar lesiant pawb sy'n naill a'i yn byw, yn gweithio neu yn ymweld â Bae Colwyn.

## *Ein Gwerthoedd Craidd:*

Fel sail i'n gweledigaeth a'n cennad, mae gennym nifer o werthoedd craidd a adlewyrchir yn yr hyn a wneir gennym a'r hyn a ddywedir gennym. Ein nod yw bod yn ...

**Moesegol**

**Grymus**

**Gonest a Dibynadwy**

**Parchus**

**Cynhwysol**

**Gofalgar a Chyfrifol**

## *Datganiad Llesiant*

Cyhoeddodd y Cyngor Tref ei datganiad Llesiant ym Mai 2018 hefyd, gan gydnabod bod llesiant yn ymwneud a bod yn iach a hapus ym mhob agwedd o'n bywydau, yn cynnwys iechyd corfforol ac iechyd meddwl, cydberthynas da a bod yn rhan o gymunedau hydwyth. Mae hyn yn cynnwys ymdrechu i sicrhau ein bod yn cwrdd ag anghenion y presennol heb amharu ar allu'r cenhedloedd sydd i ddod i gwrdd â'u hanghenion eu hunain a gwneud yr hyn rydym yn ystyried i fod yn rhesymol tuag at feysydd blaenoriaethol ein Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus lleol. Mae hefyd yn golygu ein bod yn cynnwys cofleidio'r pum dull o weithio: yr hirdymor; ataliad; cydweithio; integreiddio ac ymrwymiad.

Mae'r Adroddiad Blynyddol hwn yn rhoi gwybodaeth am weithgareddau'r Cyngor sydd wedi cyfrannu tuag at lesiant ein cymuned leol ers Mai 2022.

## *Amcanion Allweddol*

Fe gytunwyd i ganolbwyntio ar y mannau blaenoriaeth ganlynol:

- **Pobl yn addysgedig ac yn fedrus**
- **Pobl yn ddiogel ac yn teimlo'n ddiogel**
- **Pobl gyda chartrefi o ansawdd y medrent ei fforddio**
- **Pobl yn iach ac yn weithgar, gyda llesiant meddwl da ym mhob oedran**
- **Pobl yn byw mewn tref sydd ag economi llewyrchus**
- **Pobl yn gwerthfawrogi'r amgylchedd ac yn ei warchod ac yn cefnogi hydwythedd cymunedol**
- **Pobl yn byw mewn tref lle mae treftadaeth, diwylliant a'r iaith Gymraeg yn ffynnu**
- **Pobl yn wybodus, yn gynhwysol, yn cael gwrandawiad ac yn gallu ychwanegu at eu cymuned, a thrwy hyn, cefnogi Grymuster Cymunedol**

Mae'r rhain yn adlewyrchu blaenoriaethau Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy a hefyd yn ymgorffori amcanion allweddol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych a welir yng Nghynllun Llesiant yr Ardal Leol.

Fe gytunir ar ein **cynllun gwaith** pob blwyddyn ac mae'n datgan yr hyn yr ydym am ei gyflawni yn ystod y flwyddyn i wireddu'r amcanion hyn. Mae'r **Adroddiad Blynyddol** hwn yn egluro'r hyn a wnaed gennym rhwng Mai 2022 ac Ebrill 2023.


## *Trosolwg o'r Gyllideb*

Mae'r Cyngor Tref yn derbyn y rhan fwyaf o'i incwm gan drigolion ardal Bae Colwyn, trwy'r hyn a elwir yn 'archebiant'. Treth leol yw hon a osodir gan y Cyngor Tref yn flynyddol ac fe'i cesglir ar ein rhan gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, fel rhan o'r bil treth cyngor blynyddol.

Yn 2022/23, roedd bil treth gyngor cyfartalog (ar gyfer eiddo Band D) yn cynnwys **£41.81** ar gyfer y Cyngor Tref (cynnydd o 0% ar y flwyddyn flaenorol). Darparodd hyn gyfanswm incwm archebiant o £484,000.

Cafwyd incwm arall trwy brydlesu / rhentu ystafelloedd ar safle Neuadd y Dref i fudiadau eraill, sawl grant un tro a llog / incwm o fuddsoddiadau. Cyfanswm yr incwm a dderbyniwyd am y flwyddyn oedd £522,685.

**Ffig.1: Ffynonellau Incwm 2022/23**




Bydd y Cyngor yn cyfarfod i gytuno ar ei gyllideb gwariant blynyddol ym mis Ionawr pob blwyddyn ac mae'n defnyddio hyn i bennu faint yr archebiant bydd angen ei gasglu gan ei drethdalwyr lleol. Mae gwariant y Cyngor ar gyfer 2022/23 wedi'i grynhoi isod ac wedi'i restru o dan y penawdau bras a ganlyn:


- Costau gweinyddol: staff, teithio, hyfforddiant, yswiriant, archwilio, ffioedd proffesiynol, offer swyddfa a TG, cymorth TG a meddalwedd a chyhoeddusrwydd
- Treuliau Dinesig: treuliau'r Maer a digwyddiadau dinesig
- Treuliau Democrataidd: treuliau teithio aelodau, lwfansau, hyfforddiant a chostau unrhyw etholiad neu isetholiad a gynhelir yn ystod y flwyddyn
- Safle Neuadd y Dref / Ffordd Rhiw: yr holl gostau yn ymwneud a'r eiddo
- Grantiau a Rhoddion: grantiau bach (£500) a grantiau mwy i sefydliadau lleol, ysgoloriaethau, ynghyd â grantiau wedi'u targedu megis grantiau ieuenctid.
- Digwyddiadau: cyllid ar gyfer digwyddiadau a gynhelir gan y Cyngor Tref, megis noson y tân gwyllt a'r goelcerth flynyddol, a chymorth ariannol i eraill sy'n cynnal digwyddiadau yn yr ardal leol
- Colwyn yn ei Blodau: amrywiol brosiectau amgylcheddol lleol
- Theatr Colwyn: cefnogaeth i'n Theatr leol ac Oriel Colwyn
- Prosiectau Cymunedol: amrywiaeth o brosiectau cymunedol gan gynnwys cynlluniau chwarae haf, Goleuadau Nadolig, TCC, parciau a gerddi, dodrefn stryd, hysbysfyrddau digidol ac ymgysylltu â'r Gymuned.
- Prosiectau Cyfalaf: celfi stryd a chyfraniad tuag at offer chwarae ar draws meysydd chwarae lleol y Cyngor Sir.

Cyfanswm y gwariant ar gyfer 2022/23 oedd £479,100. Dechreuwyd nifer o brosiectau, ond ni chawsant eu cwblhau erbyn mis Mawrth 2023. Mae'r cyllidebau hyn, sy'n cynnwys ffioedd ymgynghori ar y Cynllun Lle, offer chwarae newydd ac atgyweiriadau i Neuadd y Dref, wedi'u cario drosodd i 2023/24, fel arian wrth gefn a glustnodwyd.

Gellir dadansoddi'r penawdau gwariant allweddol ar gyfer 2022/23 fel a ganlyn:

**Ffig.2: Prif eitemau gwariant 2022/23**

£138,685
£4,937
£19,795
£44,204
£40,650
£83,566
£17,837
£65,000
£62,892
£1,534




Cyfanswm y cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd ar 31ain Mawrth 2023 oedd £308,741 ac roedd yn cynnwys darpariaethau ar gyfer gwariant cyfalaf, regalia dinesig, costau etholiadau, atgyweiriadau parhaus a chynnal a chadw Neuadd y Dref, llwybr cerfluniau, ffioedd ymgynghoriad y Cynllun Lle, atgyweirio ac adnewyddu offer chwarae, prosiectau lles, prosiectau adfywio, cyfraniadau tuag at gynnal rhai o wasanaethau CBSC (fel pwll ymdrochi Llandrillo yn Rhos), prosiectau lwfans ward aelodau, ychwanegiadau at oleuadau'r Nadolig a grantiau / prosiectau ieuenctid.

## Y Drefn o Lywodraethu ac Atebolrwydd

Nod y Cyngor yw bod yn agored ac yn atebol ym mhopeth a wna, wrth sicrhau rheolaeth gadarn a thrylwyr o'i asedau a'i adnoddau. Mae'n gwneud hyn drwy gael Rheolau Sefydlog, Rheoliadau Ariannol a Rheolaeth Fewnol a thrwy fabwysiadu arferion rheoli risg rhagweithiol. Mae'r Cyngor yn destun archwiliadau mewnol ac allanol pob blwyddyn ac yn adrodd ar ganlyniadau'r rhain ar ei wefan a'i hysbysfwrdd. Yn ystod y flwyddyn nesaf, bydd y Cyngor Tref yn parhau i weithio drwy'r Pecyn Gwaith ar gyfer y Drefn o Lywodraethu ac Atebolrwydd, sef pecyn gwaith hunanwelliant a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2022.

## Crynodeb o Weithgareddau yr Ymgymerwyd â hwy

Nod yr adran hon yw rhoi trosolwg i chi o'r hyn y mae'r Cyngor wedi bod yn ei wneud yn ystod y flwyddyn ddiwethaf tuag at gyflawni pob un o'i amcanion allweddol. Yn dilyn yr etholiadau ym mis Mai diwethaf, mae'r Cyngor wedi parhau gyda phrosiectau, gweithgareddau a digwyddiadau a gychwynnwyd gan y Cyngor blaenorol, wrth aros i'r Cynllun Lle Cymunedol newydd gael ei fabwysiadu a'i gyhoeddi. Bydd hwn wedyn yn cael ei ddefnyddio i lywio ein hamcanion a'n

gweithredoedd yn y dyfodol. Rhestrir rhai o weithgareddau'r flwyddyn ddiwethaf isod, o dan yr amcanion allweddol perthnasol.

- **Mae pobl yn addysgedig ac yn fedrus**

  o Penodi llywodraethwyr cymunedol i bob un o'r ysgolion cynradd.

  o Cefnogi sefydliadau lleol (trwy grantiau) i helpu pobl i ddysgu a / neu ddatblygu sgiliau newydd.

  o Darparu ystafelloedd cyfarfod / hyfforddi am ddim yn Neuadd y Dref.

  o Gweithio mewn partneriaeth â ChBS Conwy ac eraill, i geisio cynyddu cyflogaeth leol a chyfleoedd hyfforddi.

- **Mae pobl yn ddiogel ac yn teimlo'n ddiogel**
  o Cyfrannu tuag at gostau cynnal a chadw camerâu teledu cylch cyfyng ar draws yr ardal.
  o Gweithio'n agos gyda'r tîm plismona bro ar faterion lleol.
  o Cefnogi'r gymuned leol drwy argyfwng costau byw, e.e. trwy arian grant i gefnogi mudiadau fel Cyngor ar Bopeth Conwy a'r Siop Cyngor ar Fudd-daliadau a chefnogi grwpiau lleol megis Home Start Conwy a Menter Kind Bay.
  o Trefnu'r digwyddiad tân gwyllt blynyddol ym Mharc Eirias, i helpu cadw teuluoedd yn ddiogel ar Noson Tân Gwyllt.

- **Mae gan bobl gartrefi o ansawdd da y gallant eu fforddio**

  o Ymateb i ymgynghoriadau ar faterion cynllunio a defnydd tir

  o Bod a Phwyllgor Cynllunio gwybodus a rhagweithiol sy'n cefnogi datblygiadau o ansawdd da mewn lleoliadau addas a chynaliadwy

  o Cefnogi mudiadau eraill sy'n mynd i'r afael â digartrefedd a thlodi.

  O Darparu defnydd o ystafelloedd am ddim a / neu gyllid i fudiadau sy'n cynnig sesiynau estyn allan i roi cyngor ar dai, cyllid a materion eraill


  o Cefnogi cynhyrchu Cynllun Lle ar gyfer ardal Bae Colwyn, i roi llais cryfach i'r gymuned leol mewn materion cynllunio lleol.

- **Mae pobl yn iach ac yn egnïol, gyda lles meddyliol da ym mhob oed.**

  o Cefnogi sefydliadau lleol sy'n darparu gweithgareddau cymdeithasol a hamdden (trwy grantiau neu gymorth arall).

  o Darparu cyllid ar gyfer gweithgareddau ieuenctid

- Caffael mynediad agored i blant lleol i gynlluniau chwarae haf.
- Ariannu offer chwarae newydd a chefnogi ein parciau, gerddi, glannau a choetiroedd lleol.
- Cefnogi prosiectau a gweithgareddau sy'n hybu iechyd a lles meddyliol, e.e. Dementia Cyfeillgar Llandrillo yn Rhos
- Hwyluso cyfarfodydd rhwydwaith llesiant lleol, er mwyn dod â phobl o gefndiroedd / sefydliadau amryfal at ei gilydd i rannu gwybodaeth a ffynonellau cyngor a cheisio nodi / mynd i'r afael â rhwystrau i les pobl.
- Diweddaru ein gwefan i gynnwys Calendr Digwyddiadau wedi'i uwchraddio a Chalendr Gweithgareddau Cymdeithasol newydd, i roi gwybodaeth i breswylwyr am yr hyn sy'n mynd ymlaen yn lleol.
- Cynnal ein hysbysfyrddau cymunedol pren sy'n agored i'w defnyddio gan grwpiau / sefydliadau cymunedol lleol i hyrwyddo eu gweithgareddau a'u digwyddiadau.




- Ymgymryd, efo'n partneriaid, Gyda'n Gilydd tros Bae Colwyn, sef prosiect a ariannwyd gan grant, i gwblhau gosod pedwar hysbysfwrdd digidol newydd ar draws ardal y Bae. Bydd rhain yn creu posteri digidol am ddigwyddiadau a gweithgareddau sydd ar gael i'n cymuned ehangach ac i ymwelwyr.

- **Pobl yn byw mewn tref sydd ag economi ffyniannus**
  - Cefnogi a gweithio gyda'r gymuned fusnes leol, ble mae'n posibl, e.e. drwy sefydliadau busnes / masnachwyr lleol
  - Gweithio mewn partneriaeth â Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy i archwilio ffyrdd y gallwn helpu i ail-bwrpasu ac adfywio canol y dref.
  - Cefnogi gweithgareddau sy'n dod â thwristiaid neu ymwelwyr dydd i'r dref, e.e. arddangosfeydd, digwyddiadau, goleuadau Nadolig a marchnata.
  - Cefnogi Tîm Tref Bae Colwyn sydd newydd ei sefydlu wrth iddo ddod â phartneriaid lleol ynghyd i gydlynu'r gwaith o gyflawni dyheadau Strategaeth Ddiwylliant Conwy ym Mae Colwyn.
  - Darparu basgedi a phlanhigion haf yng nghanol ein tref / pentrefi a chynnig basgedi crog 'prynu-un-cael-un-am ddim' i fusnesau.

- **Pobl yn gwerthfawrogi ac yn gofalu am yr amgylchedd ac yn cefnogi gwydnwch cymunedol**

  - Ariannu gweithgareddau craidd Pwyllgor Colwyn yn ei Blodau, sy'n gweithio'n galed drwy gydol y flwyddyn i hyrwyddo'r amgylchedd lleol i wneud Bae Colwyn yn lle deniadol i fyw, i ymweld neu i gynnal busnes.
  - Cefnogi Bae Colwyn i adennill ei statws 'Tref Fawr Orau Cymru' yng nghystadleuaeth flynyddol Cymru yn ei Blodau.
  - Cymeradwyo cynllun gweithredu bioamrywiaeth a chyflwyno adroddiad ar y cynnydd a wnaed yn erbyn hyn pob tair blynedd (cyhoeddwyd y diweddaraf yn 2022).
  - Cymeradwyo Cynllun Gweithredu Argyfwng Hinsawdd, i gydnabod y

    pwysigrwydd i bawb ohonom weithredu ar yr argyfwng byd-eang pwysig hwn a nodi'r camau y gallwn eu cymryd ar lefel leol iawn.
  - Darparu canolfan codi sbwriel, gyda chyfarpar ar gyfer digwyddiadau casglu sbwriel lleol ar fenthyg yn rhad ac am ddim o Neuadd y Dref.



**Gwirfoddolwyr yn Casglu Sbwriel ym Mharc Eirias**

  - Cynnal archwiliadau amgylcheddol (gyda phartneriaid) a chefnogi glanhau traethau / yr amgylchedd lleol.
  - Darparu cyllid ar gyfer celfi newydd i'r strydoedd a gwelliannau amgylcheddol eraill, trwy grantiau a lwfansau wardiau aelodau lleol.
  - Cefnogi gweithgareddau a arweinir gan y gymuned, megis grŵp o wirfoddolwyr Bwyd Bendigedig wrth droi rhai o botiau planhigion canol y dref i fod yn hafan i dyfu ffrwythau, llysiau a pherlysiau iach.

- **Pobl yn byw mewn tref lle mae treftadaeth, diwylliant a'r iaith Gymraeg yn ffynnu**

- Cefnogi a darparu adloniant a’r Celfyddydau, e.e. drwy gymorth ariannol i Theatr Colwyn ac ar gyfer digwyddiadau lleol fel gŵyl flynyddol Uke-a-Bay, a ddigwyddodd ar-lein yr haf diwethaf.
- Darparu cyllid grant / cymorth ar gyfer digwyddiadau a gweithgareddau diwylliannol eraill, megis cefnogi costau argraffu 'Y Pentan', y cylchlythyr Cymraeg lleol.
- Trefnu digwyddiadau blynyddol allweddol sy'n cysylltu â hanes ein treftadaeth, gan gynnwys gorymdeithiau Dydd Gŵyl Dewi a Sul y Cofio a gorymdaith flynyddol Gwasanaeth Dinesig y Cyngor.
- Storio ac arddangos arteffactau dinesig lleol a regalia.
- Darparu cefnogaeth glerigol ac Ymddiriedolwyr i sawl elusen leol hynafol a chynnal Cofeb Ryfel Bae Colwyn, a leolir yng Ngerddi’r Frenhines, Ffordd Conwy.
- Gwneud gwaith atgyweirio i Neuadd y Dref, adeilad rhestredig gradd II ar Ffordd Rhiw a fu gynt yn gartref i Lys Ynadon y dref.



- **Pobl yn cael gwybodaeth, yn cael eu cynnwys, yn cael gwrandawiad ac yn gallu ychwanegu at eu cymuned, ac felly’n cefnogi Grymuso Cymunedol.**
  - Mae aelodau'r Cyngor yn ymgysylltu'n rheolaidd â thrigolion lleol, naill ai yn anffurfiol fel rhan o'u gweithgareddau o ddydd i ddydd, neu'n fwy ffurfiol pan fo angen, e.e. ar gyfer prosiectau penodol.
  - Cefnogi a mynychu digwyddiadau lleol (lle bo modd).
  - Hyrwyddo democratiaeth leol.
  - Rhoi llais i drigolion lleol ar faterion lleol sy'n effeithio arnynt o ddydd i ddydd, gydol eu hoes.
  - Cydweithio a rhan-deiliaid allweddol o’r sectorau busnes a chymunedol / gwirfoddol i ddatblygu Cynllun Lle i ardal Bae Colwyn. Cynhaliwyd nifer o weithgareddau ymgysylltu â’r cyhoedd yn ystod Gwanwyn / Haf / Hydref 2022, sydd wedi llywio’r themâu a’r blaenoriaethau allweddol ar gyfer y


cynllun datblygedig. Rydym yn gyffrous y byddwn yn gallu rhannu'r cynllun terfynol gyda'n trigolion lleol yn ddiweddarach yn 2023 a dechrau cydweithio i weithredu rhai o'r camau gweithredu cyntaf sy'n deillio ohono.

## *Monitro ac Adolygu*

Mae ein perfformiad yn erbyn ein hamcanion a gytunwyd yn cael ei fonitro'n chwarterol gan y Cyngor ac, lle bo modd, yn cael ei fesur gan ddefnyddio allbynnau a chanlyniadau mesuradwy. Mae'r broses o nodi prosiectau a gweithgareddau newydd, cytuno ar gamau gweithredu, pennu cyllidebau, monitro perfformiad ac adolygu cynnydd yn gylch cyson, a'r cyfnodau allweddol yw:

- Cymeradwyo cynllun gweithredu blynyddol (erbyn mis Rhagfyr bob blwyddyn)
- Pennu cyllideb ar gyfer y flwyddyn ariannol ganlynol (erbyn mis Ionawr)
- Adolygiad o gynnydd yn chwarterol (Mehefin, Medi, Rhagfyr, Mawrth)
- Cynhyrchu Adroddiad Blynyddol (Mai), yn crynhoi'r cynnydd / gweithgareddau a wnaed yn ystod y flwyddyn ariannol flaenorol ac yn amlinellu dyheadau allweddol am y flwyddyn i ddod.
- Adolygu'r amcanion allweddol yng Nghynllun Lles Ardal y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus lleol ac ymgorffori unrhyw rai newydd (yn flynyddol, ar ôl eu cyhoeddi).

*Ffig 3: Cylch Cynllunio / Cyllideb / Gweithredu / Monitro /Adolygu:*




## *Dyheadau am y Flwyddyn i Ddod:*

Wrth ysgrifennu’r adroddiad hwn, rydym newydd derbyn y Cynllun Llesiant Ardal a ddiweddarwyd gan Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych am y cyfnod 2023-2028 a disgwyliwn dderbyn drafft terfynol Cynllun Lle Bae Colwyn yn fuan iawn. Unwaith y caiff ei fabwysiadu, bydd y cynllun hwn yn ein helpu i lywio adolygiad llawn o'n Cynllun Corfforaethol ac yn galluogi ni i gytuno ar flaenoriaethau a chamau gweithredu newydd ar gyfer gweddill y tymor presennol yn y swydd.

Yn ystod 2023/24, byddwn yn ceisio datblygu ymhellach rolau ein Hyrwyddwyr Lles ac Argyfwng Hinsawdd i gefnogi a hyrwyddo’r camau gweithredu y gallwn eu cymryd ar lefel gymunedol i fynd i’r afael â’r blaenoriaethau allweddol hyn. Byddwn hefyd yn edrych ar y ffordd orau i gefnogi adferiad ein cymuned fusnes leol a chanol ein trefi / pentrefi o effaith economaidd y pandemig a’r argyfwng costau byw diweddar a dod allan yn gryfach ac yn fwy gwydn, fel calon guro ein cymunedau lleol.

Mae gennym eisoes nifer o gamau gweithredu wedi’u cynllunio ar gyfer y flwyddyn i ddod, gan gynnwys:

- Parhau i weithio gyda'n partneriaid a thrigolion lleol i ddechrau gwireddu dyheadau ein cynllun cymuned / lle newydd ar gyfer ein hardal leol.

- Cyfrannu at yr adolygiad parhaus o Gynllun Datblygu Lleol Conwy a chynllun defnydd tir ar gyfer y Sir am y 15 mlynedd nesaf.
- Parhau i adolygu a gwella ein gwefan, i sicrhau ei bod yn hygyrch a hyblyg a bod y cynnwys yn parhau i fod yn berthnasol ac yn gyfredol.
- Defnyddio'r hysbysfyrddau digidol newydd i rannu gwybodaeth am ddigwyddiadau lleol, gweithgareddau a busnesau annibynnol lleol, i helpu i ddod ag ymwelwyr yn ôl i ganol ein tref a'n pentrefi.
- Cefnogi prosiectau sy'n dod â phobl yn ôl i ganol ein tref / cymunedau, megis digwyddiadau lleol a marchnadoedd stryd â thema.
- Annog / cefnogi ymgyrchoedd casglu sbwriel a grwpiau gweithredu amgylcheddol / hinsawdd a gweithgareddau.
- Cefnogi'r rhwydwaith llesiant lleol wrth iddo gynllunio'r cyfleusterau a'r gweithgareddau ieuenctid presennol a gweithio gyda phobl ifanc lleol i weld sut y gellir eu gwella / datblygu, i ddiwallu anghenion ein cenhedlaeth newydd o drigolion iau yn well.

## *Cysylltwch â ni:*

I gael rhagor o wybodaeth am y Cyngor Tref a diweddariadau ar newyddion a digwyddiadau lleol ac ati, ewch i'n gwefan yn www.colwyn-tc.gov.uk

Gallwch hefyd ddod o hyd i ni ar Facebook, Instagram neu Twitter - chwiliwch am 'Bay of Colwyn Town Council'. Fel arall, anfonwch e-bost atom ar: info@colwyn-tc.gov.uk, ffoniwch ni ar 01492 532248, neu dewch i'n gweld yn Neuadd y Dref, Rhiw Road, Bae Colwyn (ger Eglwys St Paul).



*Neuadd y Dref (Hen Lys Ynadon), Ffordd Rhiw, Bae Colwyn*

## Y Staff

Mae gan y Cyngor dîm bach o dri aelod o staff swyddfa: Clerc y Dref amser llawn, Tina Earley, Clerc Cynorthwyol rhan-amser, Roz Dudley, a Swyddog Gweinyddol Cynorthwyol rhan-amser, Claire Silverwood. Mae Neuadd y Dref bellach wedi ail-agor yn ddyddiol (Dydd Llun i Ddydd Gwener) o 9.00am tan 4.30pm. Fodd bynnag, rydym hefyd yn croesawu galwadau ffôn a byddwn yn ymdrechu i ymateb i negeseuon e-bost neu negeseuon Facebook yn brydlon ac yn gwrtais. Cysylltwch â ni os gwelwch yn dda os oes gennych unrhyw sylwadau, ymholiadau neu bryderon a allai fod, yn eich barn chi, o ddiddordeb neu yn berthnasol i'r Cyngor Tref. Mae gennym ddiddordeb bob amser i glywed barn trigolion, busnesau lleol ac ymwelwyr â'r ardal

## *Eich Cynghorwyr Lleol:*

Mae'r Cyngor Tref wedi'i rannu'n chwe ardal, a elwir yn wardiau, ac mae gan bob ward ei gynrychiolwyr etholedig eu hunain. Mae'r chwe ward hyn yn ffurfio pum adran etholiadol (mae adran etholiadol Llandrillo yn Rhos yn cynnwys wardiau Dinarth a Rhos). Mae mapiau manwl a gwybodaeth ystadegol amdanynt ar gael ar wefan CBS Conwy: http://www.conwy.gov.uk/en/Council/Statistics-and-research/Profiles-and-summaries/Statistical-profiles-for-wards-electoral-divisions.aspx

Gwasanaethodd y canlynol ar y cyngor lleol yn ystod blwyddyn ddinesig 2022/23:

| | | |
|---|---|---|
| *Rhos:*<br>Cyng. Chris Brockley<br>Cyng. Hannah Fleet<br>Cyng. Jo Nuttall<br>Cyng. Greg Wynne<br>Cyng. Joshua Hurst | *Dinarth:*<br>Cyng. David Howcroft<br>Cyng. Roger Parry<br>Cyng. David Wilkins | *Rhiw:*<br>Cyng. John Clayton<br>Cyng. Paul Hughes<br>Cyng. Debra Jones<br>Cyng. Leanne Kennedy<br>Cyng. Ricki Owen |
| *Glyn:*<br>Cyng. Christopher Hughes<br>Cyng. Abdul Khan<br>Cyng. Tom MacLean<br>Cyng. Colin Matthews | *Eirias:*<br>Cyng. Neil Coverley<br>Cyng. Sarah Ryder<br>SAFLE GWAG | *Colwyn:*<br>Cyng. David Carr<br>Cyng. Jason Higgins<br>Cyng. Sandra McAllister<br>Cyng. Stephen Price |

Mae **manylion cyswllt** eich aelodau etholedig ar gael er ein gwefan: http://www.colwyn-tc.gov.uk/town-council/councilors/.

**Presenoldeb Aelodau a Lwfansau**

Dim ond un ffordd o fesur pa mor weithredol ac effeithiol yw cynghorydd lleol sef presenoldeb yng nghyfarfodydd y Cyngor. Mae ymgymryd â rôl cynghorydd tref yn aml yn golygu bod ar gael 24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos. Mae llawer o gynghorwyr lleol hefyd o oedran gweithio a rhaid iddynt ennill bywoliaeth, ochr yn ochr â'u dyletswyddau cynrychioliadol. Fe welir ystadegau presenoldeb aelodau ar gyfer 2022/23 yn **ATODIAD B.**

Nid yw aelodau yn derbyn cyflog, ond gallant hawlio lwfansau amrywiol, gan gynnwys taliad sylfaenol o £150 y flwyddyn, taliad 'uwch' am ddyletswyddau ychwanegol (e.e. Cadeirydd y Cyngor neu Bwyllgor) a thrwy ad-daliad o gostau teithio a gofal am fynychu dyletswyddau a gymeradwywyd. Fe gyhoeddir cofnod o'r lwfansau a dalwyd i aelodau am bob blwyddyn ariannol ar ein gwefan, yn flynyddol, erbyn mis Medi (gweler tudalen Cynghorwyr gan ddefnyddio'r ddolen uchod).

ATODIAD A – DYDDIADAU CYFARFODYDD 2023/24

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD BLYNYDDOL** | **15/05/2023** |
| **Pwyllgor Amcanion Cyffredinol a Chynllunio** | **23/05/2023** |
| **Cyngor Llawn** | **05/06/2023** |
| **Pwyllgor Amcanion Cyffredinol a Chynllunio** | **13/06/2023** |
| **Pwyllgor Polisi a Chyllid** | **28/06/2023** |
| **Pwyllgor Amcanion Cyffredinol a Chynllunio** | **11/07/2023** |
| **Cyngor Llawn** | **24/07/2023** |
| **Pwyllgor Amcanion Cyffredinol a Chynllunio** | **08/08/2023** |
| **Pwyllgor Polisi a Chyllid** | **16/08/2023** |
| **Pwyllgor Amcanion Cyffredinol a Chynllunio** | **05/09/2023** |
| **Cyngor Llawn** | **11/09/2023** |
| **Pwyllgor Polisi a Chyllid** | **27/09/2023** |
| **Pwyllgor Amcanion Cyffredinol a Chynllunio** | **03/10/2023** |
| **Cyngor Llawn** | **23/10/2023** |
| **Pwyllgor Amcanion Cyffredinol a Chynllunio** | **31/10/2023** |
| **Pwyllgor Polisi a Chyllid** | **15/11/2023** |
| **Pwyllgor Amcanion Cyffredinol a Chynllunio** | **21/11/2023** |
| **Cyngor Llawn** | **04/12/2023** |
| **Pwyllgor Amcanion Cyffredinol a Chynllunio** | **12/12/2023** |
| **Pwyllgor Amcanion Cyffredinol a Chynllunio** | **09/01/2024** |
| **Pwyllgor Polisi a Chyllid** | **10/01/2024 & 17/01/2024** |
| **Cyngor Llawn** | **22/01/2024** |
| **Pwyllgor Amcanion Cyffredinol a Chynllunio** | **30/01/2024** |
| **Pwyllgor Polisi a Chyllid** | **21/02/2024** |
| **Pwyllgor Amcanion Cyffredinol a Chynllunio** | **27/02/2024** |
| **Cyngor Llawn** | **04/03/2024 neu 11/03/2024** |
| **Pwyllgor Amcanion Cyffredinol a Chynllunio** | **19/03/2024** |
| **Pwyllgor Polisi a Chyllid** | **27/03/2024** |
| **Pwyllgor Amcanion Cyffredinol a Chynllunio** | **09/04/2024** |
| **Cyngor Llawn** | **22/04/2024** |
| **Pwyllgor Amcanion Cyffredinol a Chynllunio** | **30/04/2024** |
| **Pwyllgor Polisi a Chyllid** | **08/05/2024** |
| **CYFARFOD BLYNYDDOL** | **13/05/2024** |

**ATODIAD B - COFNOD O BRESENOLDEB CYNGHORWYR 2022/23 am y cyfnod 16/5/22 i 10/5/23**

| ENW'R CYNGHORYDD | PRESENOLDEB POSIBL** | PRESENOLDEB GWIRIONEDDOL | % | (Is) Bwyllgorau Ychwanegol |
|---|---|---|---|---|
| Cynghorydd Chris Brockley | 24 | 19 | 79% | 4 |
| Cynghorydd David Carr | 19 | 15 | 79% | 4 |
| Cynghorydd John Clayton (O 26/7/2022) | 18 | 13 | 72% | 1 |
| Cynghorydd Neil Coverley | 19 | 12 | 63% | 0 |
| Cynghorydd Hannah Fleet (Dirprwy Maer) | 34 | 27 | 79% | 7 |
| Cynghorydd Jason Higgins | 24 | 19 | 79% | 0 |
| Cynghorydd David Howcroft (Caniatwyd absenoldeb oherwydd gwaeledd) | 19 | 6 | 32% | 2 |
| Cynghorydd Christopher Hughes | 19 | 13 | 68% | 3 |
| Cynghorydd Paul Hughes | 24 | 18 | 75% | 0 |
| Cynghorydd Joshua Hurst (O 16/8/2022) | 17 | 5 | 29% | 0 |
| Cynghorydd Debra Jones | 19 | 7 | 37% | 3 |
| Cynghorydd Leanne Kennedy | 24 | 13 | 54% | 0 |
| Cynghorydd Abdul Khan | 19 | 10 | 53% | 3 |
| Cynghorydd Tom Maclean | **24** | 22 | 92% | 1 |
| Cynghorydd Brian Madden (Ymddiswyddodd 14/3/2023) | 21 | 13 | 62% | 0 |
| Cynghorydd Colin Matthews (Maer) | 34 | 20 | 59% | 3 |
| Cynghorydd Sandra McAllister | 24 | 15 | 63% | 0 |
| Cynghorydd Jo Nuttall | 19 | 17 | 89% | 1 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Cynghorydd Ricki Owen | 24 | 21 | 88% | 2 |
| Cynghorydd Roger Parry | 19 | 12 | 63% | 0 |
| Cynghorydd Stephen Price | 19 | 13 | 68% | 1 |
| Cynghorydd Sarah Ryder | 24 | 20 | 83% | 4 |
| Cynghorydd David Wilkins | 24 | 20 | 83% | 0 |
| Cynghorydd Greg Wynne | 19 | 18 | 95% | 1 |

**** Y Maer a'r Dirprwy Faer yn aelodau Ex-Officio o'r ddau Bwyllgor***

***** Yn cynnwys Cyfarfodydd y Cyngor Llawn a Phwyllgorau Sefydlog yn unig (h.y. y Pwyllgorau Amcanion Cyffredinol a Chynllunio a Pholisi a Chyllid)***